**Gwasanaeth Bethania / Y Rhiw**
**Dydd Sul, 13 Mai 2023**
**Beth yw bod yn Gristion mewn byd o wybodaeth, anwybodaeth ac anwiredd?**

"Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd; o ble y daw cymorth i mi?
Daw fy nghymorth oddi wrth yr ARGLWYDD, creawdwr nefoedd a daear.
Nid yw'n gadael i'th droed lithro, ac nid yw dy geidwad yn cysgu.
Nid yw ceidwad Israel yn cysgu nac yn huno.
Yr ARGLWYDD yw dy geidwad, yr ARGLWYDD yw dy gysgod ar dy ddeheulaw;
ni fydd yr haul yn dy daro yn y dydd, na'r lleuad yn y nos.
Bydd yr ARGLWYDD yn dy gadw rhag pob drwg, bydd yn cadw dy einioes.
Bydd yr ARGLWYDD yn gwylio dy fynd a'th ddod yn awr a hyd byth."
[Salm 121, BCND]

Wel bore da i chi gyd unwaith eto ar fore braf o Fai, a diolch i chi am ddod i'r gwasanaeth. Gobeithio y cawn ni fendith ohoni gyda'n gilydd. Fel rych chi'n gwybod, lleygwr 'dw i, nid oed genyf unrhyw addysg ddiwinyddol ffurfiol. Ond rŷf i'n hoff iawn o ddarllen ac ystyried, yn enwedig ceisio deall sut mae'r cefndiroedd gwyddonol a Christnogol sydd 'da fi yn gallu asu at ei gilydd, yn gallu cyd-fyw gyda'i gilydd neu hyd yn oed atgyfnerthi ei gilydd. A gawn ni ddechrau'r gwasanaeth drwy gyd-ganu rhif yr emyn ...

**Emyn 36 (Dyma hyfryd fan). Tôn 27 (Clorach)**

"Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo.
Y mae dydd yn llefaru wrth ddydd, a nos yn cyhoeddi gwybodaeth wrth nos.
Nid oes iaith na geiriau ganddynt, ni chlywir eu llais; eto fe â eu sain allan drwy'r holl ddaear a'u lleferydd hyd eithafoedd byd.
Ynddynt gosododd babell i'r haul, sy'n dod allan fel priodfab o'i ystafell, yn llon fel campwr yn barod i redeg cwrs.
O eithaf y nefoedd y mae'n codi, a'i gylch hyd yr eithaf arall; ac nid oes dim yn cuddio rhag ei wres.

Y mae cyfraith yr ARGLWYDD yn berffaith, yn adfywio'r enaid;
y mae tystiolaeth yr ARGLWYDD yn sicr, yn gwneud y syml yn ddoeth;
y mae deddfau'r ARGLWYDD yn gywir, yn llawenhau'r galon;

y mae gorchymyn yr ARGLWYDD yn bur, yn goleuo'r llygaid;
y mae ofn yr ARGLWYDD yn lân, yn para am byth;
y mae barnau'r ARGLWYDD yn wir, yn gyfiawn bob un.
Mwy dymunol ydynt nag aur, na llawer o aur coeth, a melysach na mêl, ac na diferion diliau mêl.
Trwyddynt hwy hefyd rhybuddir fi, ac o'u cadw y mae gwobr fawr.

Pwy sy'n dirnad ei gamgymeriadau? Glanha fi oddi wrth fy meiau cudd.
Cadw dy was oddi wrth bechodau beiddgar, rhag iddynt gael y llaw uchaf arnaf.
Yna byddaf yn ddifeius, ac yn ddieuog o bechod mawr.
Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyt, a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy i ti, O ARGLWYDD, fy nghraig a'm prynwr."
[Salm 19, BCND]

Yn ddiweddar, fe ddarllenais lyfr gan ffisegydd a newyddiadurwr o'r enw Philip Ball, sef "*Beyond Weird"*. Bwrdwn y llyfr yw ceisio esbonio **damcaniaeth cwantwm**, *quantum mechanics* mewn ffordd sy'n ddealladwy i'r lleygwr. Ac wedyn fe ddarllenais erthygl gan John Horgan yn *Scientific American* (o 2021) yn dwyn y teitl "Beth sydd gan Dduw, mecaneg cwantwm ac **ymwybyddiaeth** (sef *consciousness*) yn gyffredin?". Ac yn olaf, darllenais amryw o erthyglau diweddar am ***Artificial Intelligence***, neu AI, neu **deallusrwydd artiffisial**.

Sut yn y byd mae'r holl syniadau 'ma o'r byd modern technolegol – a fwyfwy seciwlar, yn Ewrop o leiaf - yn asu gyda fy naliadau Cristnogol? Oes modd iddynt gyd-fyw o gwbl? Neu oes rhaid fel petai hollti fy nghredoau'n ddau fyd anibynol, un yn wyddonol a'r llall yn "ysbrydol" neu'n "Gristnogol"? Oes modd byw â ffydd yn Nuw a gwyddoniaeth ar yr un pryd? **Neu ai amlygiadau ar agweddau o'r un gwirionedd sylfaenol yw'r cyfan oll?** Ai datguddiad o'r un gwirionedd sylfaenol yw neges y Beibl (a hwyrach llyfrau sanctaidd o gredoau eraill) a'r holl ddamcaniaethau gwyddonol a'r datblygiadau technolegol modern?

Yn ei erthygl, mae Horgan yn darbwyllo'r darllenydd i gadw meddwl agored ar bob cyfrif. Mae'n amlygu'r diffygion sylfaenol mewn damcaniaethau gwyddonol presenol, ac yn tynu blew o drwyn y gwyddonwyr sy'n mynu mai gwyddoniaeth yw'r "ateb cyfan". Mae Horgan yn ein hanog i fod yn agnostig tuag at bopeth; hwyrach fel Tomos gynt, i geisio gweld â'n llygaid ni ein hunain. Dyma yn y bôn yw neges y cyn prif-rabi Jonathan Sachs yn ei lyfr "*The Great Partnership : God, Science and the Search for Meaning*". Yr her i ni fel bobl o ffydd yw i gwestiynu

yn ddi-baid, i geisio deall yn ddi-stop o bob fynhonell sy'n agored i ni, i geisio'r gwirionedd a gwella'n dealltwriaeth – ac i ddod o hyd i "ystyr". Dyma ffydd go iawn: **dewis credu** fel canlyniad i ymchwiliad personol dwys, diffuant, nid o ganlyniad i ddiogrwydd, neu draddodiad neu ddiwylliant.

Trafodaeth sy'n codi gartref o bryd i'w gilydd, yn enwedig pan oedd y plant ychydig yn iau, yw "beth yw bywyd da", neu "sut i fyw yn dda" neu "sut i benderfynu beth i'w wneud" pan fod dewis gyda ni. Neu "beth yw bod yn Gristion heddiw"? A sut mae byw bywyd da yng nghanol môr o wybodaeth, anwybodaeth ac anwiredd, môr sydd fel petai'n cynhyrfu fwyfwy yn barhaus. Beth yw bywyd da? Dwi'n siwr ein bod ni i gyd wedi ceisio ateb y cwestiwn droeon a throeon – mae'n anodd meddwl efallai am gwestiwn mwy sylfaenol.

**Beth yw bywyd da mewn byd o wybodaeth, anwybodaeth ac anwiredd? Beth yw bod yn Gristion heddiw?**

Darlleniad

"Cymerwch ofal i beidio â chyflawni eich dyletswyddau crefyddol o flaen eraill, er mwyn cael eich gweld ganddynt; os gwnewch, nid oes gwobr i chwi gan eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd. "Felly, pan fyddi'n rhoi elusen, paid â chanu utgorn o'th flaen, fel y mae'r rhagrithwyr yn gwneud yn y synagogau ac yn yr heolydd, er mwyn cael eu canmol gan eraill. Yn wir, rwy'n dweud wrthych, y mae eu gwobr ganddynt eisoes. Ond pan fyddi di'n rhoi elusen, paid â gadael i'th law chwith wybod beth y mae dy law dde yn ei wneud. Felly bydd dy elusen di yn y dirgel, a bydd dy Dad, sydd yn gweld yn y dirgel, yn dy wobrwyo.

"A phan fyddwch yn gweddïo, peidiwch â bod fel y rhagrithwyr; oherwydd y maent hwy'n hoffi gweddïo ar eu sefyll yn y synagogau ac ar gonglau'r heolydd, er mwyn cael eu gweld gan eraill. Yn wir, rwy'n dweud wrthych, y mae eu gwobr ganddynt eisoes. Ond pan fyddi di'n gweddïo, dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel, a bydd dy Dad sydd yn gweld yn y dirgel yn dy wobrwyo. Ac wrth weddïo, peidiwch â phentyrru geiriau fel y mae'r Cenhedloedd yn gwneud; y maent hwy'n tybied y cânt eu gwrando am eu haml eiriau. Peidiwch felly â bod yn debyg iddynt hwy, oherwydd y mae eich Tad yn gwybod cyn i chwi ofyn iddo beth yw eich anghenion.

Felly, gweddïwch chwi fel hyn: " 'Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef. Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol; a maddau inni ein troseddau, fel yr ŷm ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn; a phaid â'n dwyn i brawf, ond gwared ni rhag yr Un drwg.'

"Oherwydd os maddeuwch i eraill eu camweddau, bydd eich Tad nefol hefyd yn maddau i chwi. 15Ond os na faddeuwch i eraill eu camweddau, ni fydd eich Tad chwaith yn maddau eich camweddau chwi.
"A phan fyddwch yn ymprydio, peidiwch â bod yn wynepdrist fel y rhagrithwyr; y maent hwy'n anffurfio eu hwynebau er mwyn i eraill gael gweld eu bod yn ymprydio. Yn wir, rwy'n dweud wrthych, y mae eu gwobr ganddynt eisoes. Ond pan fyddi di'n ymprydio, eneinia dy ben a golch dy wyneb, fel nad pobl a gaiff weld dy fod yn ymprydio, ond yn hytrach dy Dad sydd yn y dirgel; a bydd dy Dad, sydd yn gweld yn y dirgel, yn dy wobrwyo.

"Peidiwch â chasglu ichwi drysorau ar y ddaear, lle mae gwyfyn a rhwd yn difa, a lle mae lladron yn torri trwodd ac yn lladrata. Casglwch ichwi drysorau yn y nef, lle nad yw gwyfyn na rhwd yn difa, a lle nad yw lladron yn torri trwodd nac yn lladrata. Oherwydd lle mae dy drysor, yno hefyd y bydd dy galon.

"Y llygad yw cannwyll y corff; felly os bydd dy lygad yn hael, bydd dy gorff yn llawn goleuni. Ond os bydd dy lygad yn drachwantus, bydd dy gorff yn llawn tywyllwch. Ac os yw'r goleuni sydd ynot yn dywyllwch, mor fawr yw'r tywyllwch!

"Ni all neb wasanaethu dau feistr; oherwydd bydd un ai'n casáu'r naill ac yn caru'r llall, neu'n deyrngar i'r naill ac yn dirmygu'r llall. Ni allwch wasanaethu Duw a Mamon.

"Am hynny rwy'n dweud wrthych, peidiwch â phryderu am eich bywyd, beth i'w fwyta na'i yfed, nac am eich corff, beth i'w wisgo; onid oes mwy i fywyd rhywun na bwyd, a mwy i'w gorff na dillad? Edrychwch ar adar yr awyr: nid ydynt yn hau nac yn medi nac yn casglu i ysguboriau, ac eto y mae eich Tad nefol yn eu bwydo. Onid ydych chwi yn llawer mwy gwerthfawr na hwy? P'run ohonoch a all ychwanegu un funud at ei oes trwy bryderu? A pham yr ydych yn pryderu am ddillad? Ystyriwch lili'r maes, pa fodd y maent yn tyfu; nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu. Ond rwy'n dweud wrthych, nid oedd gan hyd yn oed Solomon yn ei

holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain. Os yw Duw yn dilladu felly laswellt y maes, sydd yno heddiw ac yfory yn cael ei daflu i'r ffwrn, onid llawer mwy y dillada chwi, chwi o ychydig ffydd?

Peidiwch felly â phryderu a dweud, 'Beth yr ydym i'w fwyta?' neu 'Beth yr ydym i'w yfed?' neu 'Beth yr ydym i'w wisgo?' Dyna'r holl bethau y mae'r Cenhedloedd yn eu ceisio; y mae eich Tad nefol yn gwybod fod arnoch angen y rhain i gyd. Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi. Peidiwch felly â phryderu am yfory, oherwydd bydd gan yfory ei bryder ei hun. Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun.
[Matthew 6, BCND]

A gawn ni ymdawelu am rhai munudau, a throi at Dduw mewn gweddi.

Gweddi

Gweddïwn

"Nadir hil, hil meidrolyn - nod dynsawd,
Dawnsio ar y dibyn;
Yng ngŵydd yr ansicrwydd syn,
Ein harf yw dwy law'n erfyn."

"Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grëwyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd." [Rhufeiniaid 8:38-39 BCND]

Diolchwn am y cyfle i ddod at ein gilydd unwaith eto fel teulu'r ffydd yn ***.

Diolchwn am y fraint o gael byw mewn gwlad fach mor brydferth, a'r gwanwyn yn ei hanterth erbyn hyn ac yn brysur droi'n haf. Diolchwn am gael byw mewn gwlad fach â chyfoeth naturiol, ieithyddol a diwyllianol, gwlad fach sy'n dechrau canfod ei thraed yn wleidyddol o'r diwedd.

Gofynnwn am y nerth i ddefnyddio geiriau'n ddoeth. Ac i fanteisio ar y cyfle i helpu eraill drwy'n geirau a'n gweithredoedd. Cofiwn am rheini, y mae bywyd beunyddiol yn anodd iddynt. Rheini sy'n byw ag afiechyd, neu boen meddwl, neu iselder, neu â thristwch wedi profedigaeth.

Cofiwn am rheini sy'n rhoi o'u hamser i helpu pobl mewn angen, heb ddisgwyl dim byd yn ôl. Cofiwn am rheini sy'n gweithredu fel glud yn ein cymdeithas, yn tynu bobl at ei gilydd, yn creu cyfleon cymdeithasol. Meddyliwn yn arbenig am deulu a ffrindiau, a chyd-aelodau, sy'n gofidio ar hyn o bryd.

Gwyddwn fod gan Gymru, Prydain ac Ewrop a'r byd broblemau gwleidyddol a chymdeithasol dybryd heddiw. Gweddïwn dros rheini sy'n ceisio'r ddiffuant i wella pethau, er waethaf yr holl anawsterau.

Gweddïwn dros bobl Yr Wcrain, a'r holl ddioddefaint a cholli bywyd diangen. A gweddïwn dros y miliynau yn Rwsia a thrwy'r byd sy'n cael eu camarwain, eu twyllo a'u cyflyru gan wleidyddion, i feddwl y gellir cyfiawnhau llofruddiaeth a chreulondeb anisgrifiadwy dan faner rhyfel.

Gweddïwn y bydd ein harweinwyr yn gweld yn glir i roi buddianau'r gymdeithas o flaen eu buddianau personol nhw eu hunain, ac o flaen buddianau rhyw blaid neu gredo gwleidyddol. Gweddïwn y gwelwn ddyfodiad arweinwyr sy'n ceisio arwain serch y byd cyfan, y gymdeithas gyfan, nid yn unig serch y ganran o'r gymdeithas sy'n digwydd cytuno â'u blaenoriaethau personol.

Diolchwn am neges y Beibl, ac esiampl bywyd yr Iesu. Am arweiniad bywyd yr Iesu. Sylweddolwn fod yr atebion i ofidiau a phroblemau'r bywyd modern i'w canfod rhwng gloriau'r Beibl, ond i ni fod yn barod i edrych, i feddwl a myfyrio, i gredu a gweithredu.

Diolchwn am neges adnewyddiad y Pasg a'r Sulgwyn. Am neges hunan-aberth y groes. Am neges Crist: caru Duw a'i greadigaeth, caru cyd-ddyn - a gelyn yn enwedig, a charu ni ein hunain - caru byw ein bywyd.

Gweddïwn am y nerth i fyw yn dda, i fod yn ffrindiau a chymdogion caredig. I ofalu am ein gilydd, a gofalu am ein hunain. I drin eraill fel y byddem ni yn dymuno cael ein trin. I obeithio, ond yn fwy na hyny, i weithredu bob dydd i ddangos ein cariad at fywyd a'r ddynoliaeth a'r byd o'n cwmpas yn ddiamod.

"Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyt, a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy i ti, O ARGLWYDD, fy nghraig a'm prynwr."

Amen.

A gawn ni gyd-adrodd Gweddi'r Arglwydd. "Ein Tad, ..."

Cyhoeddi a chasglu

A gawn ni barhau'r oedfa drwy gyd-ganu rhif yr emyn 172

**Emyn 172 (Am air ein Duw). Tôn 662 (Arizona)**

**Beth yw bywyd da mewn byd o wybodaeth, anwybodaeth ac anwiredd?**

Mae yna'r fath beth â bod yn rhy **bigog**, yn rhy ***fussy***. Mae'n rhaid cyd-dynnu gyda theulu a ffrindiau, a chyd-weithwyr. Hwyrach ei fod yn ddoeth mewn sefyllfaoedd fel rhain i chwilio'r tir canol. Pan ffilm neu rhaglen deledu i wylio heno? Pa ffordd i fynd lawr i'r De y tro 'ma? Beth i gael i swper? Sut mae dewis lliw'r papur wal?

Ond efallai mae'n briodol i fod yn ffyslyd ac yn bigog ar brydiau. Ystyriwch y dirgelion mawr: paham bod dyn yn bodoli? Paham bod y bydysawd yn bodoli? Oes yna greawdwr? Paham bod y byd fel y mae? Sêr a phlanedau, a galaethau a thyllau duon. A molecylau ac atomau a phrotonau, niwtronau a chwarciau, ac electronau. A gliwoniau a grymoedd sylfaenol cryf a gwan. Paham bod pobl yn marw mewn poen o afiechyd a newyn a rhyfel? Paham mae'r holl greulondeb yn ein byd? Os bod Duw yn dda, paham fod 'na gymaint o ddrygioni ac anwiredd yn ein byd? Ffordd gall yr Iesu bod yn **fab i Dduw** o gig a gwaed os bod Duw yn fod anfeidrol? Ffordd gall corff mawr gael ei atgyfodi? Beth yw bywyd da?

Ond o ran atebion i'r dirgelion mawr, efallai nid yw'r mwyafrif ohonom yn ddigon pigog, yn ddigon ***fussy***. Rŷn ni'n setlo ar atebion am resymau diog ac anigonol, er enghraifft oherwydd bod ein rhieni, ein hathrawon a'n gweinidogion yn eu credu. Neu am bod rhyw ffŵl ar y cyfryngau cymdeithasol yn gweiddi'n uwch na neb arall. Rŷn ni'n meddwl bod angen i ni **gredu rhywbeth**, felly rŷn ni'n "mynd gyda'r llif" fel petai. Ond mewn gwirionedd, **gallwn benderfynu dros ein hunain nad oes unrhyw ateb yn ddigon da**. Gallwn fod yn agnostig.

Wrth gwrs, mae 'na wahaniaeth mawr rhwng penderfynu ein bod wirioneddol **ddim yn gwybod** (sef bod yn agnostig) a pheidio hidio neu beidio cymryd gofal: difaterwch yw hyn. Mae bod yn ddifater am y dirgelion mawr mor ffol â dilyn y llif yn ddifeddwl. Mae person agnostig-o-ddifrif wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ac wedi penderfynu nad oes modd dod o hyd i ateb.

Fe gredaf i bod llawer yn y byd modern wedi penderfynu dilyn rhyw drywydd arbenig (boed yn ddamcaniaeth wyddonol, neu yn ddogma economaidd, neu llwybr anffyddiaeth) heb archwilio'r dystiolaeth yn ofalus. Fel ddywedodd Voltaire, wrth sôn am y sylfeini gwyddonol-athronyddol: "Nid yw **amheuaeth** yn gyflwr **dymunol**, ond mae **sicrwydd** yn un **hurt**." Mae amheuaeth yn ein hamddiffyn rhag ddogma, sy'n gallu troi'n eithafiaeth yn hawdd a'r hyn y mae'r athronydd Americanaidd William James yn ei alw'n "**cau ein cyfrifon â realiti**." ... "*closing our accounts with reality*". Hyny yw, penderfynu byw bywyd cyffyrddus, a chau'r lleni fel petai ar realiti go iawn y byd. **Rhaid ar amheuaeth ag ystyriaeth iach o'r wybodaeth sydd ar gael cyn gwneud penderfyniad.**

Nid yw neb sy'n adnabod
Heb ffydd mewn awydd newid
I ddiwygio'i ymddygiad
Serch blas ar gynfas gwynfyd.

Yn y byd gwyddonol, mae 'na **agendorau o anwybodaeth sylfaenol**. Ym myd ffiseg, mae 'na ddamcaniaeth lwyddianus dros ben sy'n disgrifio mater – pren a dŵr ac allyriadau o geir - fel casgliad o atomau. Tu mewn i'r atomau mae 'na ronynau is-atomig fel protonau a niwtronau, ac electronau. Tu mewn i'r proton a'r niwtron mae 'na ronynau llai fyth o'r enw cwarciau â phriodweddau rhyfedd dros ben. Rwy'n defnyddio'r gair "gronyn" i ddisgrifio'r pethau 'ma, ond does neb wir yn gwybod beth yn union yw ei ffurf. Ambell waith, bydd pethau'n y byd cwantwm (fel electron, a phroton, ac atom, a moleciwl, a ni ein hunain) yn ymddwyn fel "gronyn", ac ambell waith fel "ton". Does neb yn gwybod os bod damcaniaeth cwantwm – y ddamcaniaeth orau sydd gennym am fyd ffiseg – yn wirioneddol disgrifio sylfeini natur a realiti, neu jyst yn rhyw dric mathemategol o wneud cyfrifiadau yn effeithiol. "***Shut up and calculate***" yw'r ymadrodd a ddefnyddir gan rhai ffisegwyr i gadw'r ffisegwyr sydd ag amheuon sylfaenol yn dawel!

Cei hynt dirgelwch cwantwm yn cynal
Damcaniaeth sy'n rhigwm?
Endid haprwydd, llid y llwm:
Drysi ar faths di-rheswm.

Yn wir, mae'n anodd dychmygu sut y byddwn fyth yn gallu datgelu'r gwirionedd go iawn. Fe gredaf i bod angen bod yn agnostig. Derbyn bod gennym ddamcaniaeth sy'n rhagweld yn effeithiol, ond cydnabod mae jyst model yw hi – nid realiti. **Byddwn ni byth yn GWYBOD go iawn.**

Mae'r ddadl dros **deallusrwydd artiffisial** neu AI, ***artificial intelligence***, yr un mor anodd â'r ddadl dros fecaneg cwantwm. Rwyn siwr erbyn hyn eich bod wedi clywed am feddalwedd o'r enw ***ChatGPT*** neu ***Chat generative re-trained transformer*** . Meddalwedd yw hwn sy'n gallu ateb cwestiynau ar ystod o bynciau, ar hanes a chrefydd a rygbi a hyd yn oed creu ffuglen a chyfieithu. Yn arwynebol, mae'n anhygoel. Mae'n werth i chi fynd ar y we a thrio ChatGPT, os ond i weld beth sy'n bosib. Gofynais wrth ChatGPT y ddoe: "Beth yw bywyd Cristnogol da?", a chwarae teg fe gefais baragraff digon synhwyrol mewn Cymraeg digon safonol fel ateb.

Ond beth **yw** ChatGPT? Wel, jyst model ystadegol sydd wedi ei hyfforddi ar andros o lot o enghreifftiau o decst ar yr rhyngrwyd, gan gynwys wicipedia ag yn y blaen. Yn y bôn, mae'r feddalwedd yn rhagweld pa air neu eiriau sy'n debygol o ddilyn cyfres o eiriau sy'n bodoli yn barod. Clasur o enghraifft byddai rhoi'r ymadrodd "Mae'n hoff gen i fwyta" i ChatGPT, ac fe fyddai'r feddalwedd yn ateb gydag un o lu o bosibiliadau, gan gynwys "hufen ia" siwr o fod (gan fod llawer o enghreifftiau o "Mae'n hoff gen i fwyta hufen ia" wedi ymddangos yn y tecstiau a ddefnyddiwyd i hyfforddi'r model). Y peth sy'n wirioneddol frawychus am feddalwedd fel ChatGPT yw ei fod yn gallu creu meddalwedd newydd ei hun. Efallai yn y dyfodol y bydd y fath feddalwedd yn gallu addasu a datblygu ei hun, ar gyfradd llawer cynt nag y mae'r meddwl dynol yn gallu dysgu. Dychmygwch. **Ond nid yw ChatGPT yn deall**. Os hyfforddwn ChatGPT ar y Beibl, buasai'n gallu rhoi ateb i'r cwestiwn "Beth yw Duw" ag ymadroddion fel "Duw, cariad yw" neu "Da yw Duw i bawb" yn hawdd. Ond nid yw yn deall am Dduw na chariad na'r ddynoliaeth. Yn wir, mae'n anodd dychmygu sut y bydd fyth yn gallu deall go iawn. Os hyfforddwn ChatGPT ar anwiredd, bydd yn ail-adrodd yr anwiredd. Maen rhaid i ni fod yn agnostig wrth feddwl am dechnoleg fel ChatGPT. Derbyn bod gennym ddamcaniaeth sy'n rhagweld yn effeithiol, ond cydnabod mae jyst

model yw hi – nid realiti. A rhyw ffordd neu gilydd, mae angen i ChatGPT ei hun a'i debyg ddysgu **ei hun** i fod yn agnostig. Fel Socrates, mae angen iddo ddeall ei fod yn "**gwybod dim**".

Mae'r ddadl dros **ymwybyddiaeth** neu ***consciousness*** yr un mor anodd â'r ddadl dros fecaneg cwantwm ac AI. Sut mae **mater** – sef casgliad o atomau - yn creu **meddwl**? Sut mae dyn yn gallu **bod yn ymwybodol**? Ychydig ddegawdau yn ôl, roedd athronyddwyr fel Daniel Dennett yn credu bod ymwybyddiaeth yn deillio o brosesau niwral, sef negeseuon electrocemegol yn yr ymennydd. Cynigiodd Francis Crick (y dyn DNA) a Christof Koch fod ymwybyddiaeth yn cael ei gynhyrchu gan rwydweithiau o niwronau yn cydweithio. Ond yn raddol, **dymchwelodd** y consensws heb dystiolaeth empirig i'w gyfiawnhau. Bellach mae 'na amrywiaeth fawr o ddamcaniaethau ynglŷn ag ymwybyddiaeth. Mae damcaniaethwyr fel y ffisegydd Roger Penrose (enillodd Wobr Nobel yn ddiweddar) yn dyfalu bod effeithiau cwantwm yn sail i ymwybyddiaeth. Ni all ymchwilwyr hyd yn oed gytuno ar seiliau ac egwyddorion damcaniaeth ymwybyddiaeth. A ddylai fod yn draethawd athronyddol neu grefyddol? Model mathemategol pur? Algorithm enfawr, efallai yn seiliedig ar gyfrifiant ystadegol? Pob un o'r uchod? Dim un o'r uchod? Mae consensws yn ymddangos ymhellach i ffwrdd nag erioed. Dylem fod â meddwl agored, yn agnostig.

Yn ein bywydau Cristnogol, **mae 'na agendorau o anwybodaeth sylfaenol hefyd**. 'Da ni'n dod i'r capel ar y Sul. 'Da ni'n eistedd a gwrando, a chanu (rhai yn fwy brwdfrydig na'i gilydd ... heb edrych ar neb yn benodol, wrth gwrs). Gwrando ar y darlleniad, y weddi a'r bregeth yn arbennig. Mae'n siŵr i fi fod yr effaith mae'r gwasanaeth yn ei gael arnom yn ddibynnol i raddau helaeth ar ein hwyliau ni'n bersonol ar y diwrnod. Mae'n siŵr fod ein meddyliau'n crwydro yn ystod ambell bregeth, ta waeth y pwnc a drafodir.  Daeth y cyn-archdderwydd Y Parch. John Gwilym Jones atom ym Mhendref dros degawd yn ôl nawr, a siarad â theimlad am symud o'r Gogledd- o Fangor - yn ôl i fyw i'r De. Diwedd un cyfnod o'i fywyd a dechrau cyfnod newydd. Gadael un cymdeithas annwyl iddo, ac ail-ymuno â chymdeithas annwyl arall. Torri un cartref a dechrau un newydd. Gorfod trefnu ei drugareddau, dewis beth i'w gadw, beth oedd wir angen, a beth oedd yn rhaid ei adael ar ôl. Gwnaeth y profiad iddo feddwl am ei drugareddau ysbrydol a Christnogol hefyd. Daeth i'r casgliad mai'r hyn oedd wir angen arno'n Gristnogol oedd ond tri peth, sef: **gweddi**, **oedfa** a'r "**Iesu yn y canol**" (yn ei eiriau e, os dwi'n cofio'n iawn). Dwi am fentro ac ychwanegu un agwedd arall, credaf sy'n fwyfwy pwysig yn y byd sydd ohoni, sef **bod yn barod i amddiffyn ein daliadau**, i sefyll

yn y blwch, **i leisio'r farn Cristnogol yn dyner ond yn gadarn**, neu **i gario'r groes** os fynwch chi. Gweddi, oedfa, cario'r groes, â'r Iesu yn y canol.

**Am weddïo:** Mae meddwl, neu fyfyrio, neu ystyried yn rhywbeth 'da ni gyd yn gorfod gwneud drwy'r amser. Efallai'r hyn sy'n anoddach yw creu yr amser i fyfyrio'n ddwysach neu'n ddyfnach. Mae bywyd yn brysur, yn rhy brysur ambell waith, ac mae'r cyfleon i fyfyrio yn brin. Ond mae'r fudd o fyfyrio yn rhywbeth 'da ni 'gyd yn teimlo'n reddfol am wn i. Mae fel pe baech wedi dodi'r byd yn ei le yn feddyliol neu ysbrydol, neu wedi rhannu rhyw faich. Mynd am dro, mynd i redeg, cael sgwrs yn y dafarn gyda cyfaill da.

Myfyrio yw sylfaen ein athroniaeth ni, ein hymgais i ddeall y byd o'n cwmpas. Ys dywed Gwenallt am ei gilfach i fyfyrio:

"Rhyw ddedwydd lonydd le
Llonydd le ar dyle neu dwyn
Lle caf fodio llawysgifau'r ne'
Dethol gyfrolau'r doethion, mynachdod myfyrdod mwyn."

Ys dywed Descastes, "Meddyliaf, felly rwyf". Fel rwy 'di sôn yn barod, yr athronydd Socrates, hwyrach â'i dafod yn ei foch, a ddywedodd: "Os dwi'n gwybod un peth, dwi'n gwybod mod i'n **gwybod dim**". Gyda llaw, roedd Socrates hefyd, yn ôl y sôn, o'r yn gryf o'r farn mae pwrpas bywyd oedd dysgu sut i farw, neu i weld marwolaeth fel cam naturiol – nid rywbeth i'w ofni, ond cam nesaf naturiol ym mywyd bob un ohonom.

**Am oedfa neu gwrdd**. Dyma 'chi eiriau braf, cyfle i gymryd hoe, i oedi ac ystyried, ac i gwrdd â phobl sy'n rhannu'r un daliadau ysbrydol â ni. Dwi'n cofio i John Gwilym Jones bwysleisio fod adeilad y cwrdd yn amherthnasol fwy neu lai. Does dim angen capel crand, na chapel o gwbl efallai, nac enwad. A dwi'n cofio'r pwyslais yn ei bregeth ar yr hyn mae pob un ohonom yn ei **rhoi i eraill** o ddod i'r oedfa, yn bwysicach efallai na'r hyn yr ydym yn ei dderbyn neu'n ei ddisgwyl.

A rhaid ystyried y ffaith ein bob yn cwrdd â phobl sydd â'r un daliadau crefyddol â ni, sy'n meddwl yn ysbrydol yn debyg i ni. Ydych chi'n cael y teimlad o fynd i gapel arall o'r un enwad eich bod ymhlith ffrindiau, yn fwy nag mewn capel o enwad arall? Mae'n rhaid i mi gyfaddef, mai un o'r pethau cyntaf dwi'n wneud, pan yn mynd i ganu 'da'r côr neu'r pedwarawd gynt i ryw gapel neu festri dieithr, yw

holi am yr enwad. Nid fod un enwad yn well na gwaeth nag enwad arall ond yn sicr mae nhw'n wahanol, a rhaid cydnabod a pharchu hynny.

Ydych chi'n teimlo'n fwy cartrefol mewn capel Cymraeg na chapel Saesneg? Gartref yng Ngodre'r Graig yng Nghwm Tawe, mae 'na ambell lyfr ar ffurf hunan-gofiant neu "ffrwythau dethol" ar hyd y lle. Digwydd bod i mi ddarllen ychydig o lyfr "ffrwythau dethol" Y Parch Ben Davies yn ddiweddar. Ben Davies oedd gweinidog Pant-teg, Ystalyfera, (sef capel y teulu yn y de) am gyfnod helaeth o'r ganrif ddiwethaf, ac awdur sawl emyn yn hen Ganiedydd yr Anibynwyr a Chaniedydd yr Ysgol Sul. Mae ganddo gerdd fach, "Y Gymraes", sy'n egluro pwysigrwydd elfen gymdeithas "oedfa" i mi i'r dim. Sôn mae am Gymraes yn mynd o gartref i Loegr i weini, ac am ymdrechion gweinidog y teulu Seisnig i'w chael i fynd i addoli gyda nhw, nid i gapel Cymraeg.

"Aeth geneth unieithog o Gymru Fach,
I weini i'r ddinas bell,
A chwiliodd a'i chalon am gapel Cymra'g
I wrando'r newyddion gwell.

Roedd ganddi y Sul filltiroedd o daith,
Ond cyson yr âi bob prynhawn,
A phan yn methu, da gwyddai'r nef,
Nad ydoedd y lle yn llawn.

Â'r teulu i'r capel Saesneg hardd
Gerllaw ar gwr y dref,
A gelwai'r gweinidog yn ei dro,
Gwas Duw yn ddi-ai oedd ef.

Un dydd, gofynnodd i'r forwyn fach
Am ddod gyda'r teulu 'nghyd
I'r capel Saesneg –" D'oes dim mewn iaith,
Nid Cymro yw ceidwad y byd."

"Efallai," medd hithau, "nad Cymro oedd ef –
A diolch yn fawr i chi,
Er hynny, bob amser wrth siarad ag Ef,
Cymra'g mae E'n siarad 'da fi.""

**Am gario'r groes:** Dwi'n siŵr eich bod wedi gweld y rhaglen "QI" â Stephen Fry gynt, bellach gyda Sandy Toksvig bellach, ar y teledu. Rhaglen ddiddorol gan amlaf. Prynodd y ferch lyfr i fi'r un Nadolig, â'r teitl "*QI Book of the Dead*", a llyfr tebyg o'r enw "*The Book of 100 Dead Philosophers*". Mae 'na hanesion difyr am farwolaethau sawl athronydd, ac ambell dudalen yn sôn am Karl Marx, tad comiwnyddiaeth. Ar garreg fedd Marx ym mynwent Highgate yng ngogledd Llundain mae'r geiriau: "***The philosophers have only interpreted the world in various ways. The point however is to change it***". Hynny yw, does dim ots pa faint o athronyddu mae dyn yn ei wneud, pa faint o siarad, yr hyn sy'n bwysig yw ein gweithredoedd, "**gwneud y dweud**" i fenthyg o'r Saesneg. Mae hon yn neges naturiol Gristnogol, hyd y gwelaf i. Gweithredoedd sy'n bwysig.

Meddyliwch am y llanast wleidyddol sydd ym Mhrydain yn bresenol, hyrtwch Putin a'r rhyfel yn yr Wcrain, Trump yn bygythio yn America. Meddyliwch am y pwysau ar ein gwasanaeth iechyd, ein hysgolion, y tyllau yn ein ffyrdd, a'r tyllau ariannol a moesol ym mreuddwydion ein bobl ifanc. Diolch am bobl fel Archesgob Caergaint, Justin Welby, sy'n barod i leisio barn Cristnogol yn glir ac yn gytbwys, a gwrthod cynlluniau ffiaidd llywodraeth San Steffan ynglŷn ag atal mewnfudo. Meddyliwch am ddogma'r farchnad rhydd, a dogma gwyddoniaeth, dogma ein crefydd. A moesoldeb technoleg newydd fel AI a ChatGPT. Mae angen llawer mwy o leisiau Cristnogol clir, cytbwys yn cyhoeddi neges cariad yn y byd sydd ohoni.

**Am yr Iesu yn y canol:** Hwn siwr o fod yw'r agwedd mwyaf dyrys ac anodd i ymdopi ag ef. Beth yn union mae "Yr Iesu yn y canol", neu "Neges yr Iesu" yn ei feddwl? O lle mae'r neges yn dod? Beth yw'r neges? Ar yr olwg gyntaf, cawn y neges o'r Beibl, Gair Duw, "Beibil annwyl Iesu", "Rhodd deheulaw Duw", a ddengys inni'r ffordd i farw ac i fyw.

Dwi'n siwr fod rhai ohonom yn ei chael yn anodd i gymryd y Beibl **air am air**. Mae'n anodd derbyn dehongliadau llythrenol yn y Beibl. Efallai eich bod yn tueddu dehongli'r llawer o'r hyn i chi'n gyfarwydd â fe yn y Beibl fel parablau neu damhegion neu diarhebion – yn sicr, dyna dwi yn ei wneud. Ond llwybr llithrig yw hon, mae 'na beryg – faint o barabl a faint o wirionedd "gair am air" sydd yn yr Efengylau, er enghraifft? Faint o wirionedd "gair am air" a faint o ddameg yw stori'r geni, neu storïau iachau, neu hyd yn oed croeshoeliad ac atgyfodiad. Mae rhai bobl yn dweud na allwch chi fod yn Gristion o gwbl os na chredwch yn yr atgyfodiad. Ond beth mae "**credu mewn atgyfodiad**" yn meddwl yn union? Credu

fod dyn o gnawd a gwaed wedi marw a wedi dod yn ôl yn fyw, neu credu fod yna "atgyfodiad" ysbrydol i'w gael i ni 'gyd, **ond inni ei geisio**. Lle felly mae'r tir canol?

Mae 'na ddigon o sôn yn yr hen destament fod Duw yn cosbi ac hyd yn oed yn fodlon cymryd bywyd ambell waith; fod Duw yn fodlon boddi'r byd, yn mynu aberthau a lladd plant cyntaf anedig. Ond fel mae sawl un wedi dweud, "nid fy Nuw i yw hwn!".

Mae'r hyn dwi wedi darllen a deall o lythyron Paul yn gwneud llawer o synwyr i mi'n bersonol. Ond honiad y deallusion yw nad yw Paul yn cyfeirio (rhyw lawer) at fanylion bywyd yr Iesu ar y ddaear. Felly, efallai mai ysbrydoliaeth bywyd a neges yr Iesu sy'n bwysicach na dim, yn hytrach na'r manylion? Mae rhai o'r negeseuon a'r canllawiau y cawn o'r testament newydd yn anodd i'w derbyn. Er enghraifft, ydi hi'n wirioneddol rhesymol inni heddiw rhoi ein holl feddianau i eraill, os am fod yn Gristion da? Beth am ein cyfrifoldeb dros ein teulu ni ein hunain?

Mae'r gwyddonydd a'r sgeptig ynof yn meddwl taw'r **gwaethaf** am grefydd, a moeseg, yw'r **bobl** sy'n **cyflyru** a manipiwleiddio syniadau i'w dibenion eu hun. Mae Cristnogaeth fel canllaw, fel ffydd, yn **ddelfrydol**. Yn rhywbeth i ni geisio'i gyrraedd, yn rywbeth sy'n **wirioneddol** werth ymdrechu amdano. Mae lle i honi fod system gymdeithasol fel comiwnyddiaeth yn ddelfrydol hefyd. Ond bobl sy'n troi'r syniadau pur i'w dibenion eu hun, â'u llygru. Pa Gristion fyddai'n cymryd bywyd dyn arall, neu'n mynd â'i wlad i ryfel heb fynd i eithafoedd i osgoi hyn? Pa fath Gristion sy'n cadw'n dawel pan fod anghyfiawnder yn ei gymdeithas ef ei hun? Pa fath Gristion sy'n fodlon â bonysis gwerth miliynau ar filiynau o bunnoedd i bobl ym myd bancio pan fod miliynau yn byw â newid bob dydd, ac yn marw? Pa fath Gristion sy'n **dweud** dim pan fod hyn yn digwydd? Go wir, pa fath o Gristion sy'n **gwneud** dim yn wyneb hyn?

Ydyw'n hi'n wirioneddol bosib mai Cristionogaeth yw'r **unig** ffordd? Paham na all fod yn Iddew da, neu Sikh da, neu Fwslem da fod gystal â bod yn Gristion? Neu fod heb gred o gwbl, ond yn byw bywyd moesol? Mae gen i ffrind da sy'n Gatholig, un arall yn Sikh, un arall yn Fwslem, un arall yn Hindŵ ... a nifer sy'n anffyddwyr. Mae'r bobl yma yn byw yn dda hyd y gwelaf i. Mae nhw'n dilyn canllawiau gwahanol i mi, ond mae 'na gysondeb amlwg rhyngddom o ran goblygiadau ymarferol ein daliadau.

Mae’r **Crynwyr** yn sôn am “**olau mewnol**” fel ffordd o fynegi rhyw gyfuniad o’u cydwybod a’u credo. Yn ôl y Crynwyr, mae gan pob unigolyn ei syniad personol ei hun o’r hyn yn union **yw’r** golau mewnol, ond yn aml mae’n cyfeirio at **bresenoldeb Duw**, neu ysbryd Duw, yn yr unigolyn. Mae’r golau mewnol yn mynegi’r ffaith fod Duw ynom ni i gyd. Mae’r Crynwyr yn credu na **ddylsem or-ddibynnu ar unrhyw beth tu-hwnt i’n profiadau personol** i’n harwain yn ein bywydau. Agwedd sylfaenol agnostig sy’n apelio’n fawr ato i’n bersonol. Y golau mewnol dylid arwain bob un ohonom. Drwy fynychu’r oedfa a thrafod, rydym yn sicrhau ein bod yn cydgordio a chyd-dynnu yn ein ffydd. Y golau mewnol yw ein batris ysbrydol, sy’n goleuo’r ffordd i ni drwy bywyd. Caiff y batris eu hatgyfnerthu gan weddi, oedfa, ein ffydd, ein cariad a’n gweithredoedd wrth inni gario’n croes bach ni. **Efallai dyma beth yw ystyr “Yr Iesu yn y canol” i mi.**

Felly, i grynhoi, dewch i ni fod yn onest

- Rŷn ni’n gwybod braidd dim am ddim. Yn sicr, rŷn ni ddim yn gwybod y cyfan, a byddwn ni byth yn gwybod.
- Mae’r byd yn rhyfeddod, pob eiliad, pob modfedd. Hyd y gwyddom, ni yw’r unig rhywogaeth sy’n gallu dechrau ag amgyffred â rhyfeddod ein bodolaeth, Rŷn ni’n wirioneddol sbesial. Rŷn ni gyd yn wyrthiau.
- Mae genym y grym i ddifetha’n byd, mae genym gyfrifoldeb. Ein braint a’n cyfrifoldeb yw ystyried yn ddwys, yn ddi-baid, i ddewis caru’n gilydd, a **dewis credu**.
- Yng ngeiriau William James, “**Duw tragwyddol yw fy noddfa**”. Neu fel soniodd John Gwilym Jones: gweddi, oedfa, â’r Iesu yn y canol.

Neu yng ngeiriau Max Ehrmann:

“Ewch mewn tangnefedd ynghanol y sŵn a'r brys, a chofiwch bod heddwch i’w gael mewn distawrwydd. Cyn belled ag y bo modd, heb ildio, byddwch ar delerau da â phob person.

Siaradwch eich gwirionedd yn dawel ac yn glir; gwrandewch ar eraill, hyd yn oed y diflas a'r anwybodus; mae ganddyn nhw hefyd eu stori.

Osgowch pobl swnllyd ac ymosodol; maent yn flinderus i'r ysbryd. Os cymharwch eich hun ag eraill, efallai y byddwch yn teimlo’n flin neu'n chwerw, oherwydd bob amser bydd rhai pobl yn well, a rhai yn waeth na chi ‘ch hun.

Mwynhewch eich llwyddiannau â'ch cynlluniau. Cadwch ddiddordeb yn eich gyrfa eich hun, waeth pa mor ostyngedig ydyw; mae'n sylfaen gadarn ar siwrnai newidiol amser.

Cymerwch bwyll yn eich materion busnes, oherwydd mae'r byd yn llawn twyll. Ond na fydded i hyn eich dallu i'r rinweddau o'ch cwmpas; mae llawer o bobl yn ymdrechu am ddelfrydau uchel; mae bywyd yn llawn arwyr.

Byddwch yn wir i chi'ch hun. Peidiwch â ffugio hoffter. Peidiwch â bod yn sinigaidd am gariad; oblegid yn wyneb pob anhawster, mae'n fythol-wyrdd. Cymerwch gyngor y blynyddoedd yn garedig, gan ildio'ch ieuenctid yn osgeiddig.

Meithrinwch gryfder ysbryd i'ch cysgodi rhag anffawd sydyn. Ond peidiwch â phoeni'ch hun â dychymyg tywyll. Mae llawer o ofnau'n cael eu geni o flinder ac unigrwydd.

Byddwch ddisgybledig iach; a byddwch yn dyner gyda chi 'ch hun. Rydych chi'n blentyn i'r bydysawd fel y coed a'r sêr; mae gennych hawl i fod yma.

Bo'n amlwg ai peidio, heb os, mae'r bydysawd yn datblygu fel y dylsai. Felly byddwch mewn heddwch â Duw. A beth bynnag fo 'ch llafur a'ch dyheadau, yn nryswch swnllyd bywyd, cadwch heddwch yn eich enaid. Er waetha'r ffugioldeb, y diflastod a'r breuddwydion diflanedig, mae'n dal i fod yn fyd hardd. Byddwch yn siriol. Ymdrechwch i fod yn hapus."

[Desiderata, Max Ehrmann, tua 1920]

Er mwyn Ei Enw, Amen.

I ddiweddu'r oedfa, a gawn ni gydganu rhif yr emyn 171.

**Emyn 171 (Os gofyn rhywun beth yw Duw).**

Yn ddefod, yw weddi ddwyfol – a ias
Cael Iesu'n y ganol,
Rho oslef y nef yn ôl
I'm mynwes, Olau Mewnol.

Bydded i ras yr Iesu, a chariad Duw, a chwmni'r Ysbryd Glân, aros gyda ni i gyd, am byth, Amen.

Llyfryddiaeth

ttps://www.scientificamerican.com/article/what-god-quantum-mechanics-and-consciousness-have-in-common/

https://www.newscientist.com/article/2367423-the-quantum-world-a-concise-guide-to-the-particles-that-make-reality/

https://www.penguin.co.uk/books/435182/beyond-weird-by-philip-ball/9781784706081